

Gêmau Bwrdd


Ar gyfer y gêm hyn, bydd yn rhaid gwneud braslun o fwrdd fel hwr Sylwch sut mae'r rhifau wedi eu trefnu.

1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
11	12	13	14	15	16	17	18	19	20
21	22	23	24	25	26	27	28	29	30
31	32	33	34	35	36	37	38	39	40
41	42	43	44	45	46	47	48	49	50
51	52	53	54	55	56	57	58	59	60
61	62	63	64	65	66	67	68	69	70
71	72	73	74	75	76	77	78	79	80
81	82	83	84	85	86	87	88	89	90
91	92	93	94	95	96	97	98	99	100

- ◆ Dechreuwch ar 1. Taflwch ddarn arian. Os bydd yn wlybyn (heads), symudwch un cam ymlaen. Os bydd yn sychyn (tails), adiwch 10, gan ddweud y cyfanswm yn gywir cyn symud. Y cyntaf i gyrraedd y rhes waelod sy'n ennill.
- ◆ Dechreuwch unrhyw le ar y bwrdd. Rholiwch ddis. O gael eilrif gallwch symud ymlaen ac o gael odrif, symudwch yn ôl. Os byddwch yn glanio ar luosrif 5, gallwch symud 10 ymlaen neu 10 yn ôl. Y person cyntaf i gyrraedd naill ai pen y bwrdd neu'r gwaelod sy'n ennill.

Lan a lawr y glorian

- ◆ Dyfalwch gyda'ch plentyn beth yw pwysau'r bobl yn eich cartref.
- ◆ Yna eu pwysu (os ydyn nhw'n cytuno!). Helwch eich plentyn ddarllen y glorian
- ◆ Cofnodwch y pwysau, yna ysgrifennwch y pwysau yn eu trefn.



Ailadroddwch ar ôl pythefnos. Beth yw'r gwananiaeth yn y pwysau. os o gwbl?


Ras y ffa

Bydd angen dau ddis a phentwr o ffa sych.

- ◆ Cymerwch dro i rollo'r ddau ddis.
- ◆ Lluoswch y ddau rif a galwch yr ateb.
- ◆ Os ydych yn gywir, rydych chi'n ennill ffeuen.
- ◆ Y cyntaf i gael 10 ffeuen sy'n ennill.

Targedau i ddisgyblion Blwyddyn 3

YGG Castell-nedd



Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

Targedau – Blwyddyn 3 ₂

Erbyn diwedd Blwyddyn 3, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu ...

- Darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 1000 a'u rhoi yn eu trefn. Gwybod beth yw gwerth pob digid.
- Cyfrif ymlaen neu yn ôl fesul deg neu fesul gant o unrhyw rif dan 1000, e.e. 462, 472, 482 ... neu 462, 562, 662...
- Gwybod ffeithiau adio a thynnu hyd at 20 ar eu cof, e.e. $4 + 16 = 20$, $12 - 8 = 4$.
- Datrys symiau fel $56 + 29$, a $97 - 51$ yn eu pen.
- Gwybod tabl 2, 3, 5, 6 a 10 ar eu cof.
- Gwneud rhannu syml, fel $27 \div 5$.
- Darganfod ffracsiynau syml, fel $\frac{1}{2}$, $\frac{1}{3}$, $\frac{1}{4}$, $\frac{1}{5}$, $\frac{1}{10}$ siapiau a rhifau.
- Dweud faint o'r gloch yw hi i'r 5 munud agosaf.
- Defnyddio **£.c.** e.e. gwybod mai £2 a 4c yw £2.04.
- Datrys problemau rhif syml ac esbonio sut y cafwyd yr ateb.
- Adnabod onglau sgwâr a llinellau cymesuredd.
- Esbonio graff syml.

Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai eich plentyn allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn 3.

Mae'n bosib bod y targed yn fwy cymhleth mewn gwirionedd, e.e. efallai na fydd plentyn sy'n gallu cyfrif hyd at 1000 yn gwybod yr hyn y mae pob digid yn ei gynrychioli. Er enghraifft, yn y rhif 784, 80 yw gwerth yr '8', ac nid 8 yn unig..

Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

Gwneud 20

Ar gyfer y gêm hon bydd rhaid ysgrifennu'r rhifau 0 i 20 ar ddarn o bapur. Bydd angen eu gwneud yn ddigon mawr i roi cownteri neu ddarnau arian arnynt.

- ◆ Cymerwch dro. Rholiwch ddis. Rhowch ddarn arian ar y rhif sydd, gyda rhif y dis, yn gwneud 20, e.e. taflwch '4' a rhowch y darn arian ar 16.
- ◆ Os yw cownter rhywun arall yno'n barod, gallwch ddodi eich un chi yn ei le!
- ◆ Y person cyntaf i gael cownteri ar 6 rhif gwahanol sy'n ennill.
- ◆ Nawr rholiwch ddau ddis, adiwch y ddau rif a chwiliwch am rif i wneud 20. Y cyntaf i gael darnau arian ar 10 rhif gwahanol sy'n ennill.

